**ATODIAD 2**

## Strategaeth Economi Gwynedd - Adroddiad ymgysylltu

# GWYNEDD 2035
# Economi sy'n Gweithio i Bawb

***Economi arloesol, gynhyrchiol a charbon isel sy'n cryfhau'r Gymraeg, yn creu cyfleoedd newydd ac yn cyfrannu at lesiant pawb***

## Trosolwg

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi crynodeb o'r gwaith ymgysylltu a gynhaliwyd yn ystod y cyfnod o flwyddyn rhwng Tachwedd 2024 a diwedd Hydref 2025 mewn cysylltiad â datblygu a chreu Strategaeth Economi Gwynedd.

Bu ymgysylltu helaeth â rhanddeiliaid, yn bartneriaid strategol i'r Cyngor, ac yn fusnesau a thrigolion y sir. Trefnwyd cyfres o gyfarfodydd unigol â phrif bartneriaid y Cyngor yn y maes datblygu economaidd, yn sirol, rhanbarthol a chenedlaethol, a chafwyd mewnbwn gan y sectorau cyhoeddus, preifat, a sefydliadau'r trydydd sector.

Er mwyn ennyn mewnbwn gan gymuned fusnes Gwynedd, defnyddiwyd Arolygon Busnes y Cyngor yn 2024 a 2025; y negeseuon gan fusnesau am eu bwriad i'r dyfodol, y cyfleoedd a'r heriau sy'n eu wynebu, a'r mathau o gymorth sydd ei angen arnynt. Mae canlyniadau'r arolwg i'w gael ar wefan Cyngor Gwynedd Arolwg Busnes 2024 Cyngor Gwynedd

Cynhaliwyd sesiynau ymgysylltu eang er mwyn cyrchu barn rhanddeiliaid ac Aelodau'r Cyngor wrth ddatblygu'r Strategaeth ac ar ffurf drafft y polisi.

Cafwyd adborth ar themâu a blaenoriaethau i'w cynnwys, cryfderau a gwendidau economi Gwynedd, anghenion a heriau'r sir, a chyfleoedd y dylid ymateb iddynt.

Yn ogystal, cynhaliwyd asesiad unswydd o aliniad y Strategaeth i ofynion a dymuniadau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae canlyniad yr asesiad wedi arwain at lunio adran 3 y Strategaeth (Yr Achos Dros Weithredu).

## Dull ymgysylltu

Trefnwyd cyfarfodydd gyda phartneriaid strategol a rhanddeiliaid allanol yn unigol yn ogystal â mynychu cyfarfodydd grŵp.

Ymhlith y rhanddeiliaid sydd wedi cynnig mewnbwn mae cynrychiolwyr o:

- Lywodraeth Cymru
- Uchelgais Gogledd Cymru
- Partneriaeth Sgiliau Gogledd Cymru
- Busnes Cymru
- Prifysgol Bangor.
- Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
- Cymdeithas tai Adra

- Ffederasiwn y Busnesau Bychain (FSB) Cymru
- Mantell Gwynedd
- GISDA
- Partneriaeth Twristiaeth Gynaliadwy Gwynedd ac Eryri 2035
- Yr Undeb Amaethwyr Cenedlaethol (NFW) ac Undeb Amaethwyr Cymru (FUW)
- Rhwydwaith Mentrau Cymdeithasol Gwynedd
- Menter Môn

Gwnaed ymdrech hefyd i sicrhau adborth gan arbenigwyr yn y maes adeiladu cyfoeth cymunedol a'r economi sylfaenol drwy law yr Athrawon Karel Williams a Julie Froud (Foundational Economy Research Ltd)

Yn ogystal â phartneriaid allanol mae'r Strategaeth wedi ei drafod gydag ystod o swyddogion o fewn y Cyngor gan gynnwys:

- Yr Uned Iaith a Chydraddoldeb (Gwasanaethau Corfforaethol)
- Yr Uned Gaffael (Gwasanaethau Corfforaethol)
- Cynllun Economi Ymweld Cynaliadwy (Economi a Chymuned)
- Strategaeth Llechen Lân (Tîm Arweinyddiaeth Gorfforaethol)

Lluniwyd rhestr o gwestiynau enghreifftiol er mwyn hwyluso ac ysgogi trafodaeth gyda rhanddeiliaid (ynghlwm).

## Ymateb

Cafwyd sylwadau ac awgrymiadau defnyddiol gan bartneriaid a rhanddeiliaid ar gyfeiriad a chynnwys y Strategaeth. Yn dilyn y trafodaeth, fe wnaed addasiadau wrth lunio'r polisi i adlewyrchu'r adborth.

Roedd yr ymatebion yn nodi nifer o themâu cyffredinol, ac mae'r adborth wedi ei grynhoi i'r rhai canlynol:

- Gweithlu a sgiliau
- Cyd-destun Gwynedd
- Cymunedau lleol
- Iaith a diwylliant Gwynedd
- Cydweithio
- Busnesau
- Is-adeiledd
- Amgylchedd

Isod mae manylion y sylwadau roddwyd cyn llunio'r Strategaeth:

| Thema | Materion a godwyd | Ymateb |
|---|---|---|
| **Gweithlu a sgiliau** | Heriau recriwtio | Blaenoriaeth 3 Pwynt 1 yn cyfarch hyn yn benodol |
| | Mae angen darparu hyfforddiant a chynyddu sgiliau'r gweithlu i gyfarch anghenion penodol y swyddi sydd ar gael. Mae prentisiaethau yn ffordd bwysig o wneud hyn, ond mae heriau gan nad oes rhybudd digonol am ddatblygiadau mawr. | Blaenoriaeth 3 Pwynt 2 yn cyfarch hyn yn benodol. Y Rhagair yn sôn am y tirlun ariannu. |
| | Angen buddsoddi mewn pobl ifanc i leihau'r nifer sy'n datgysylltu gydag addysg. | Blaenoriaeth 3 Pwynt 5 yn cyfarch hyn yn benodol |
| | Cyfarch yr angen i gadw pobl ifanc yn yr ardal, ac i ddenu nhw'n ôl i'r ardal i weithio. | Blaenoriaeth 3 Pwynt 3 yn cyfarch hyn yn benodol |
| | Cydraddoldeb yn bwysig yn y gweithlu | Blaenoriaeth 4 Pwynt 4, 7 a 8 yn cyfarch hyn yn benodol |
| | Angen amodau fydd yn annog creu swyddi o ansawdd i bobl Gwynedd | Blaenoriaeth 1 a 2 yn cyfrannu at hyn a Blaenoriaeth 4 Pwynt 2, 3 a 5 yn cyfeirio at amodau gwaith. |
| **Cyd-destun** | Angen dangos y cyd-destun economaidd rhanbarthol i economi Gwynedd | Adran II – Proffil Economi Gwynedd yn mynd i fanylder am hyn |
| | Cyfeirio at yr her o gael rhaglenni ariannu tymor byr | Wedi ei grybwyll yn y Rhagair |
| | Angen cysondeb ac aliniad gyda strategaethau eraill y Cyngor e.e. cynllun llesiant, Strategaeth Caffael, Strategaeth Iaith | Adran V – Datblygu'r Strategaeth i Economi Gwynedd yn mynd i fanylder am hyn |
| **Cymunedau lleol** | Sicrhau bod cefnogaeth ar gael ar draws y sir yn cynnwys ardaloedd gwledig, a thargedu adnoddau'n deg, yn hytrach na bod cyfleoedd wedi eu cronni mewn rhai ardaloedd. | Blaenoriaeth 5 yn ei gyfanrwydd yn cyfarch hyn. |
| | Angen cadw'r budd yn lleol o wariant mentrau. | Blaenoriaeth 6 Pwynt 5 yn cyfarch hyn yn benodol |
| | Annog caffael gwasanaethau a chynnyrch lleol. | Adran V – Dylanwadu a chydweithio yn cyfeirio at gefnogi cyflenwyr lleol, a Blaenoriaeth 1 pwynt 7 yn cyfeirio at hyn. |
| | Ystyried sut i sicrhau bod y gymuned leol yn cael budd o dwristiaeth. | Cynllun Strategol Economi Ymweld Cynaliadwy Gwynedd ac Eryri 2035 |

| | | |
|---|---|---|
| | | wedi ei ystyried yn y cyd-destun strategol.<br>Y rhagair yn cyfeirio at dwristiaeth. |
| **Iaith a Diwylliant Gwynedd** | Angen rhoi blaenoriaeth a gwarchod rôl allweddol y Gymraeg mewn swyddi ac yn economi'r sir | Hwn yn un o'r gwerthoedd craidd sy'n cael eu hamlygu yn y Strategaeth. Blaenoriaeth 6 pwynt 3 yn cyfeirio at hyn yn benodol |
| | Angen cyfeirio at gyfraniad pwysig y celfyddydau a threftadaeth i economi Gwynedd | Blaenoriaeth 6 pwynt 2 yn cyfeirio at hyn yn benodol |
| **Cydweithio** | Angen sicrhau cydweithio rhwng y Cyngor, partneriaid lleol a rhanbarthol, a chymunedau i wireddu'r Strategaeth | Adran V – Dylanwadu a chydweithio - yn cyfeirio at hyn.<br>Adran VII – Y Strategaeth ar waith – yn pwysleisio gweithio drwy bartneriaeth. |
| | Angen fforwm i annog partneriaeth economaidd | Adran VII – Y Strategaeth ar waith – yn gosod sylfaen i sefydlu Fforwm Economi Gwynedd. |
| **Busnesau** | Dylid cynnwys cefnogaeth i fusnesau a mentrau yn y strategaeth, a'r angen am gymorth i dyfu a datblygu'r busnes. | Pwrpas Blaenoriaeth 1 yn ei gyfanrwydd yw cefnogi busnesau a mentrau |
| | Angen cefnogi entrepreneuriaid i ddatblygu busnesau | Blaenoriaeth 1 yn cyfarch hyn |
| | Angen gofodau i fusnesau sy'n tyfu | Blaenoriaeth 5 pwynt 6 yn cyfarch hyn yn benodol |
| | Annog cyfleoedd sy'n codi o ddatblygiadau mawrion | Blaenoriaeth 2 pwynt 6 a 7 yn cyfarch hyn yn benodol |
| | Annog cydweithio a rhwydweithio rhwng mentrau | Blaenoriaeth 1 pwynt 10 yn cyfarch hyn yn benodol |
| **Is-adeiledd** | Angen ymateb i heriau cludiant cymunedol a thrafnidiaeth cyhoeddus | Blaenoriaeth 5 pwynt 2 yn cyfarch hyn yn benodol |
| | Angen ystyried daearyddiaeth y sir – anghenion trafnidiaeth a chysylltedd digidol. | Blaenoriaeth 5 pwynt 1 a 3 yn cyfarch hyn yn benodol |
| **Amgylchedd** | Angen i ddatblygiadau mawr ddangos eu bod yn gwarchod yr amgylchedd. | Adran IV -Y Newid Sydd Ei Angen - yn cyfeirio at hyn |

Ar ôl ei llunio, fe gafodd drafft o'r Strategaeth ei chylchredeg i bartneriaid a rhanddeiliaid er mwyn casglu adborth ar y ddogfen.  Bu ymdrech hefyd i ennyn barn Aelodau Etholedig y Cyngor drwy law Aelodau'r Cabinet a'r Pwyllgor Craffu Addysg a'r Economi.

Ar y cyfan roedd cefnogaeth gyffredinol i'r Strategaeth, ond rhoddwyd rhai sylwadau fel sy'n cael ei fanylu isod. Addaswyd y ddogfen derfynol i adlewyrchu awgrymiadau'r adborth.

| Thema | Materion a godwyd | Ymateb |
|---|---|---|
| **Gweithlu a sgiliau** | Angen cyfeirio at batrymau gwaith a dulliau gweithio hyblyg | Blaenoriaeth 3 pwynt 7 yn cyfarch hyn yn benodol |
| | Angen cyfarch uwchsgilio pobl ifanc, a defnyddio sefydliadau addysgol sylweddol yn y sir i ddarparu hyfforddiant er mwyn ateb y galw mewn sectorau a diwydiannau newydd. | Adran IV – Y Newid Sydd ei Angen – a Blaenoriaeth 3 pwynt 2, 3, 4 a 5 yn cyfarch hyn yn benodol |
| **Cyd-destun** | Cyfeirio at y cyfleoedd sy'n codi o ddylanwadau statudol a chenedlaethol | Adran V – Datblygu'r Strategaeth – yn cyfeirio at hyn |
| **Cymunedau lleol** | Dylid cyfeirio at dwristiaeth yn y rhagair. | Wedi ei gynnwys |
| | Cryfhau'r cyfeiriad at gaffael gwasanaethau lleol a chryfhau'r gadwyn gyflenwi lleol er mwyn cadw'r gwariant a'r budd yn lleol gan y sectorau cyhoeddus a phreifat. | Wedi ei gynnwys yn Adran V a VI. Blaenoriaeth 1 pwynt 7 a Blaenoriaeth 6 pwynt 5 yn cyfarch hyn yn benodol |
| | Mae angen dangos y bydd adnoddau yn cael eu targedu tuag at ardaloedd difreintiedig a gwledig. | Adran IV – Y Newid Sydd Ei Angen yn cyfeirio at welliannau fydd yn dod o weithredu'r Strategaeth. |
| | Angen crybwyll y Porthladd Rhydd | Wedi ei gynnwys yn Blaenoriaeth 2 pwynt 2 |
| **Iaith a Diwylliant Gwynedd** | Angen dangos bod hunaniaeth a diwylliant Gymraeg yn bwysig ar gyfer twf. | Wedi ei gynnwys yn y Rhagair ac yn Blaenoriaeth 6 |
| | Cadarnhaol bod y Gymraeg yn cael sylw yn y weledigaeth, ond awydd i'r iaith gael lle mwy amlwg yn y blaenoriaethau. | Y weledigaeth a Blaenoriaeth 6 pwynt 3 yn cyfeirio'n benodol at hyn |
| | Sôn am ddwyieithrwydd Gwynedd | Wedi ei gynnwys yn Adran II – Proffil Economi. Blaenoriaeth 6 yn ei gyfarch hefyd |
| | Bod yn gryf yn datgan bod y Strategaeth yn berthnasol i'r Gymraeg a'r gymuned leol | Hwn yn un o'r gwerthoedd craidd sy'n cael eu hamlygu yn y Strategaeth. Blaenoriaeth 6 yn ei gyfanrwydd yn cyfarch hyn |
| | Cyfeirio at Strategaeth Iaith Cyngor Gwynedd | Wedi ei gynnwys yn y proffil economi. |

| | | |
|---|---|---|
| **Cydweithio** | Angen dangos yn gliriach y bydd adrannau'r Cyngor yn cydweithio, a chydweithrediad gyda chyrff mawr allanol. | Adran V – Dylanwadu a chyd-weithio yn cyfarch hyn. |
| | Rhoi mwy o wybodaeth am rôl Fforwm Economi Gwynedd. | Adran VII – Y Strategaeth ar Waith yn cyfarch hyn. |
| | Rhoi pwyslais ar bartneriaid strategol yn gweithredu i gyflawni'r Strategaeth yn ogystal â'r Cyngor | Y Rhagair, Adran V – Dylanwadu a chyd-weithio, ac Adran VII – Y Strategaeth ar Waith yn cyfarch hyn. |
| | Cyfeiriad cryfach i ddylanwadu ar y llywodraethau er mwyn uchafu'r buddsoddiad economaidd i Wynedd, ac i gydweithio i ddenu buddsoddiad. | Adran VII – Y Strategaeth ar Waith yn cyfarch hyn. |
| | Angen cryfhau'r cyfeiriad cynyddu'r cysylltiad rhwng y brifysgol a chymunedau Gwynedd, a defnyddio'r arbenigedd ac adnoddau yno i wneud gwaith ymchwil fydd yn buddio'r economi. | Y Rhagair, Adran V – Dylanwadu a chyd-weithio yn cyfarch hyn. |
| **Busnesau** | Angen cyfeirio mwy at ddenu ac annog buddsoddiad gan y sector breifat | Adran V – Dylanwadu a chyd-weithio, a Blaenoriaeth 2 pwynt 1 yn cyfarch hyn. |
| | Ni ddylid cyplysu sectorau lletygarwch ac amaeth – gan eu bod yn wahanol iawn. | Rhagair wedi ei addasu i ddangos hyn |
| | Nid oes cyfeiriad at arbrofi a threialu syniadau newydd ac arloesol. Angen cydnabod yr hybiau arloesi cymunedol sy'n bodoli. | Blaenoriaeth 1 pwynt 4 yn cyfarch hyn. |
| **Is-adeiledd** | Angen eglurdeb ar pa isadeiledd sy'n cael ei dargedu | Blaenoriaeth 5 yn nodi targedau penodol. |
| | Cryfhau ystyriaethau teithio i'r gwaith a theithio llesol ardraws y rhanbarth. | Blaenoriaeth 5 pwynt 2 a 3 yn cyfarch hyn. |
| **Cyflawni'r Strategaeth** | Angen dangosyddion clir sy'n cysylltu gyda'r blaenoriaethau, ac y gellid eu defnyddio i fesur llwyddiant y Strategaeth<br>Cynnwys allbwn i ddangos faint o swyddi sydd wedi eu creu | Fframwaith Monitro a Gwerthuso yn cynnwys dangosyddion. |
| | Angen adolygu be sydd wedi ei gyflawni yn flynyddol, a dysgu trwy weithredu'r ymyriadau | Bydd Ffowrm Economi Gwynedd yn gwneud hyn – wedi ei nodi yn Adran VII |
| | Angen dangosydd i fesur effaith y nifer o siaradwyr Cymraeg sy'n dal swyddi proffesiynol. | Anodd iawn mesur hyn yn ymarferol. |

| | | |
|---|---|---|
| | Gellid dangos yn well sut y bydd amcanion yn cael eu gwireddu, a pha rai sydd fwyaf allweddol. Yn gefnogol o'r fframwaith monitro. | Y Fframwaith Monitro a Gwerthuso yn cynnwys dangosyddion fydd yn cael eu mesur. |
| | Angen dangos yn well sut y bydd yr ymyriadau yn gwella'r economi a pha sectorau fydd yn cael eu targedu. | Adran IV yn nodi y prif welliannau i'r economi. Bydd y Cynllun Cyflawni blynyddol yn nodi targedau fwy manwl |

## Fframwaith Monitro a Gwerthuso

Datblygwyd Fframwaith i fesur effaith y Strategaeth ac mae'r dangosyddion wedi eu dethol yn benodol er mwyn cyfarch y themâu godwyd wrth ymgysylltu.

Cafwyd cyngor proffesiynol arbenigwyr yn y maes economi hefyd er mwyn safoni'r detholiad a sicrhau bod y dangosyddion yn cyd-fynd a'r Weledigaeth a'r Blaenoriaethau yn y Strategaeth.

### Casgliad

Bu ymdrech sylweddol dros gyfnod o amser i ymgysylltu gyda phartneriaid o sectorau gwahanol yn ogystal ag arbenigwyr mewn amrywiaeth o feysydd sy'n berthnasol i ddatblygiad economaidd Gwynedd. Cafwyd sylwadau i lywio cyfeiriad a chynnwys y Strategaeth cyn dechrau'r broses o lunio'r ddogfen, a chafwyd adborth eang ar ddrafft er mwyn sicrhau bod materion perthnasol wedi eu cyfarch.

## Cwestiynau enghreifftiol i ysgogi trafodaeth gyda rhanddeiliaid

1. Pa bethau ddylid eu hadlewyrchu yn natganiad uchelgais y Cynllun?

2. Pa bethau ddylid eu hadlewyrchu ym mlaenoriaethau'r Cynllun?

3. Pa heriau economaidd sydd angen eu goresgyn yng Ngwynedd, yn eich sector neu eich hardal chi?

   - Beth yw'r prif rwystrau sy'n cyfyngu ar dwf economaidd?
   - A oes unrhyw rwystrau penodol yn gysylltiedig â sgiliau, neu is-adeiledd technoleg?

4. Pa gyfleoedd economaidd ydych chi'n teimlo y gellid manteisio arnynt?

   - Pa feysydd sydd â photensial i dyfu neu i fod yn arloesol?
   - Sut all y Cyngor fanteisio ar y cyfleoedd hyn?

5. A oes gennych chi unrhyw gynlluniau neu weithgareddau fydd yn cyfrannu at ddatblygu economaidd y sir?

6. Pa flaenoriaethau pwysig ddylai'r Strategaeth Economaidd newydd ganolbwyntio arnynt?

   - Yn eich tyb chi, pa gamau gweithredu fyddai'n cael yr effaith fwyaf cadarnhaol ar yr economi leol?
   - Ydych chi'n teimlo bod angen strategaethau penodol ar gyfer sectorau unigol, neu strategaeth fwy cyffredinol?

7. Sut allwn ni hyrwyddo datblygu cynaliadwy a datblygiadau gwyrdd yn yr economi leol, a sicrhau fod buddion o ddatblygiadau'n cael eu cadw'n lleol?

8. Sut all y Strategaeth gyfrannu at fywiogrwydd y Gymraeg yng Ngwynedd?

9. A oes unrhyw syniadau ychwanegol neu adborth yr hoffech ei rannu yng nghyswllt y strategaeth?